**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio hybrid a gynhaliwyd ddydd Mercher, 9 Ebrill 2025.**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd;<br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai. |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr John Tierney - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Hefyd yn Bresennol:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol;<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg.<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. |

(2.00 o'r gloch yp– 4.10 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu'r Cynghoydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol yn Eitem 4 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd - Trefniadau Llywodraethu a chraffu cynnydd yn erbyn Cynllun Llesiant 2023-2028 gan ei fod yn gyflogedig gan Cyngor Gwynedd ac ar secondiad gyda'r Bwrdd Uchelgais. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025 yn gywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd ac Ynys Môn - trefniadau llywodraethiant a chraffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Lleisiant 2023-2028** |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn trefniadau llywodraethiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoedus a nodi cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Llesiant 2023-2028 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Porthladd Rhydd Ynys Môn - Diweddariad** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **Cydnabod rôl y Cyngor o ran datblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gynnwys cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol a Llawn.**<br>• **Cydnabod cadernid y trefniadau llywodraethu a throsglwyddo o'r Bwrdd Cysgodol i'r Bwrdd Llawn**<br>• **Nodi'r camau nesaf o ran cadarnhau'r Porthladd Rhydd, gan gynnwys yr angen i gymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn y daw'r Porthladd Rhydd yn weithredol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor 2025/2026** |
| PENDERFYNIAD | **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26.** |